Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Trefniadau Ariannu Ysgolion Ymchwiliad Dilynol

Hydref 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

www.cynulliadcymru.org

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Enterprise.learning.comm@Wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Trefniadau Ariannu Ysgolion Ymchwiliad Dilynol

Hydref 2009

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Ariannu Ysgolion – Ymchwiliad Dilynol
Hydref 2009

Cyflwyniad

1. Diben yr ymchwiliad byr hwn oedd craffu ar y Gweinidog ac undebau'r athrawon mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed ers i'r Pwyllgor Menter a Dysgu gyhoeddi ei adroddiad ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru ym mis Mai 2008. Roedd yr adroddiad hwnnw ei hun yn adroddiad dilynol yn sgil yr Adroddiad ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion yn 2006. Mae ein hadroddiad diweddaraf yn crynhoi'r dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a ddaeth i law, yn ogystal â gwneud argymhellion.

Y cefndir

2. Un o'r prif faterion a godwyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion oedd y "niwl ariannu" sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer ariannu ysgolion, a'r ffaith bod y system yn "ymddangos yn gymhleth ac yn anhyblyg, ac [nad] oedd yn glir pwy oedd yn atebol am beth". Daeth y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion i'r casgliad bod y dull cyffredinol o ariannu ysgolion yng Nghymru a'r modd y dosberthid yr arian hwnnw'n seiliedig i raddau helaeth ar batrymau gwario hanesyddol, yn hytrach nag ar unrhyw asesiad gwrthrychol o anghenion ysgolion ar y pryd ac yn y dyfodol.

3. Gwnaeth y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion 27 o argymhellion (sydd wedi'u rhestru'n llawn yn Atodlen A i'r adroddiad hwn). Y prif argymhelliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru) oedd y dylai adolygu'r elfen addysg yn y fformwla ddosbarthu ar gyfer llywodraeth leol, a hynny er mwyn i'r cyfan fod yn seiliedig ar y gost o ddarparu addysg ar y pryd ac yn y dyfodol, yn hytrach nag ar unrhyw gostau hanesyddol.

4. Wrth ymateb i'r adroddiad, comisiynodd y Gweinidog Dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd astudiaeth gan Brifysgol Heriot-Watt, sef Alternative Resource Allocation Models for Local Services in Wales ("adroddiad Bramley"). Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'n hymchwiliad presennol, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n rhoi'r senarios ariannu sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Bramley ar waith. Yn lle hynny, mae swyddogion yn ystyried newidiadau a fyddai'n golygu bod trefniadau ariannu ysgolion yn fwy seiliedig ar ganlyniadau, a hynny mewn ffordd na fydd yn ansefydlogi trefniadau ariannu awdurdodau lleol. Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol sy'n arwain y gwaith hwnnw[1] (gweler paragraff 21 isod).

[1] Cofnod y Trafodion colofn 107, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2

5. Roedd ymchwiliad dilynol y Pwyllgor Menter a Dysgu yn 2008 yn cynnwys craffu ar waith Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, yr Athro Glen Bramley (awdur adroddiad Bramley) a'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar bob lefel yng Nghymru er mwyn clywed eu sylwadau.

6. Roedd ein hadroddiad yn 2008 yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, fel cyflwyno system ariannu dair blynedd, ond ychydig o gynnydd a wnaed mewn meysydd eraill, yn enwedig y canlynol:

- Gwybodaeth effeithiol – sy'n rhoi arweiniad, sy'n hygyrch ac y gellir ei chymharu
- Defnyddio cyllid yn effeithiol
- Effeithiolrwydd y fforymau cyllideb ysgolion
- Safon adeiladau ysgolion, a'r toiledau'n arbennig.

7. Roedd ein hadroddiad yn gwneud deg argymhelliad (sydd wedi'u rhestru'n llawn yn Atodlen B i'r adroddiad hwn). Derbyniodd Llywodraeth Cymru chwech ohonynt, a derbyn pedwar mewn egwyddor. Ein prif argymhellion oedd y dylid rhoi adolygiad Bramley ar waith; y dylid sefydlu gwefan ar gyfer ariannu ysgolion er mwyn i'r trefniadau fod yn agored; ac y dylid cael system agored ar gyfer cymharu gwariant rhwng gwahanol ysgolion.

8. Ers cyhoeddi'n hadroddiad y llynedd, mae materion newydd wedi'u hamlygu'u hunain gan ddylanwadu ar ein hymchwiliad presennol, fel y trefniadau ariannu sy'n deillio o roi'r Llwybrau Dysgu 14-19 ar waith a'r ymchwiliad i grantiau wedi'u neilltuo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol[2]. Roedd yr ymchwiliad hwnnw'n edrych ar yr amrediad o grantiau addysg penodol ac ar sut y gellid symleiddio'r systemau gweinyddu a phrosesu (y fiwrocratiaeth) sy'n gysylltiedig â'r grantiau hynny, er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon.

Cipolwg ar drefniadau ariannu ysgolion

9. Caiff ysgolion eu hariannu gan awdurdodau lleol, sy'n eu tro'n cael tua 80% o'r cyllid ar gyfer ysgolion gan Lywodraeth Cymru.

10. Darperir cyllid Llywodraeth Cymru'n bennaf drwy'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n grant heb ei neilltuo (hynny yw, nid oes unrhyw amodau'n pennu sut y dylai awdurdodau lleol ei ddosbarthu). Caiff yr arian hwn ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ar sail Asesiad o Wariant Safonol.[3]

11. Caiff yr Asesiad o Wariant Safonol ei rannu ymhellach yn Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion, a'r rheini'n gysylltiedig â gwasanaethau

[2] Ymchwiliad i Grantiau Addysg Penodol, Y Pwyllgor Cyllid, Awst 2009

[3] Asesiadau o Wariant Safonol yw'r symiau o wariant refeniw, sef y net o grantiau penodol, y mae Llywodraeth Cymru'n credu sy'n briodol i bob awdurdod lleol ei wario er mwyn darparu lefel sylfaenol o wasanaeth gyda chyfradd gyffredin o Dreth Gyngor

penodol.[4] Nid yw Llywodraeth Cymru'n pennu targedau ar gyfer gwariant awdurdodau lleol ar ysgolion. Felly, yn unol â'u blaenoriaethau a'u fformwlâu ariannu eu hunain, mae modd i awdurdodau lleol benderfynu ar gyllidebau ar gyfer gwasanaethau ysgolion sydd yn uwch neu'n is na'r Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion, a gallant benderfynu ar gyllideb gyffredinol sy'n uwch neu'n is na'u Hasesiad o Wariant Safonol.

12. Darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ac mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Darperir cyllid ar gyfer darpariaeth ôl-16 gan Lywodraeth Cymru drwy grant penodol.

13. Codir yr 20% sy'n weddill ar gyfer ariannu ysgolion yn lleol, yn bennaf drwy'r Dreth Gyngor. Gall awdurdodau lleol gael cyllid ychwanegol drwy grantiau wedi'u neilltuo gan Lywodraeth Cymru, a'r rheini'n gysylltiedig â'i blaenoriaethau strategol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grantiau cyllid cyfalaf ar gyfer ysgolion.

Natur y dystiolaeth

14. Ar gyfer yr ymchwiliad dilynol hwn, cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a chan undebau'r athrawon – Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon / Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, NASUWT, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, a'r Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr. Mae eu tystiolaeth ysgrifenedig i'w gweld yn Atodiad 1 a'u tystiolaeth lafar i'w gweld yn Atodiad 2.

Pa mor eglur yw'r trefniadau ariannu a'r gallu i gymharu gwahanol drefniadau

<u>Y Grant Cynnal Refeniw</u>

15. Tra bo rhai tystion yn credu bod cynnydd wedi'i wneud tuag at sicrhau bod y trefniadau ariannu ysgolion yn fwy eglur a bod modd eu cymharu,[5] teimlid bod llawer o waith o hyd i'w wneud.

16. Gwelsom gopi o adroddiad gan yr ymgynghorydd John Atkins, sef adroddiad a gomisiynwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yng nghanol 2008[6]. Roedd yr adroddiad hwnnw'n dangos y gwahaniaethau rhwng y trefniadau ariannu yng Nghymru a Lloegr, a'r gwahaniaethau hefyd rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Os mai dim ond 1 y cant yn llai y pen y mae Cymru'n ei wario ar addysg na Lloegr, roedd yr adroddiad yn gofyn pam y gwarir 9.5 y cant (£495) yn llai ar gyfer pob disgybl? Roedd yr adroddiad yn dadlau nad yw'n ymddangos y gellir priodoli'r anghysondeb i wahaniaethau ym mhatrymau oedran y

[4] Mae Asesiadau o Wariant Safonol ac Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion yn ddulliau o ddosbarthu cyllid. Nid eu bwriad yw rhagnodi faint y dylai awdurdodau lleol ei wario

[5] Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon /Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

[6] The funding of education in Wales – an update report, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru, 21 Mawrth 2009

boblogaeth, gwahaniaethau yn yr hyn a gaiff ei gymharu wrth edrych ar y gwariant, na'r gwahaniaeth yn y nifer sy'n cael addysg breifat. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oes modd cymharu'r gwariant yn uniongyrchol gan fod y ffigurau'n cynnwys addysg oedolion, hyfforddi ieuenctid a gwobrau i fyfyrwyr.[7]

17. Yn ôl NASUWT, nid yw Llywodraeth Cymru'n llwyddo i sicrhau bod cyllid ar gael i'r sector addysg yng Nghymru, ac nid yw'n sicrhau bod y dull o ddosbarthu arian ar gyfer addysg yn deg ac yn gydradd ledled Cymru. Mae'r pryderon hyn yn cael eu rhannu gan y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon.[8] Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau nad oedd digon o adroddiadau ariannol cyson ar gael, a bod angen gallu cael gafael ar ragor o wybodaeth o ansawdd uchel am faterion sy'n ymwneud ag ariannu os yw Cymru i gynllunio at y dyfodol ac i reoli ysgolion yn effeithiol.[9]

18. Beirniadwyd Llywodraeth Cymru yn hallt am ei phenderfyniad annisgwyl a hwyr iawn[10] i gwtogi 7.4 y cant ar y gyllideb ar gyfer addysg ôl-16 ym mis Mawrth 2009, a hynny ar ôl i arweinwyr ysgolion gynllunio eu cwricwlwm a'u patrwm staffio ar gyfer 2009/10. Cafodd y penderfyniad hwn ei wyrdroi'n ddiweddarach. Roedd NASUWT am i'r Pwyllgor sylweddoli na fyddai peidio â chwtogi'r gyllideb yn ateb digonol i anghenion ariannu addysg ôl-16. Mynegodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau bryderon mai'r effaith ar ysgolion fyddai dosbarthiadau mwy o lawer a llai o gyfleoedd i blant. Byddai effaith hefyd i'w gweld ar berfformiad disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Credai'r Gymdeithas y byddai risg y gallai plant Cymru fod o dan anfantais o'u cymharu â phlant yn Lloegr, er y byddai cydweithio a dysgu arferion da yn cyfrannu rywfaint at liniaru'r pryderon hynny.[11]

19. Cawsom wybodaeth hefyd gan Fforwm Ysgolion Castell-nedd Port Talbot, a gyfeiriwyd atom gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.[12] Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys pryderon am lefelau ariannu Llywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac effaith hynny ar ysgolion yn yr awdurdod lleol dan sylw. Yn ei phapur i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin 2009,[13] disgrifiodd Llywodraeth Cymru y setliad i lywodraeth leol ar gyfer 2009/10 fel a ganlyn:

    "tight but it was also a fair deal for both local government and council tax payers against the context of the general financial climate."

20. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog bod y gwariant ar addysg wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r gwariant ar gyfer pob disgybl bellach 81 y cant yn uwch nag oedd ym 1999/2000, ac mae

[7] Cofnod y Trafodion colofn 113, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[8] Cofnod y Trafodion colofnau 29-31, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[9] Cofnod y Trafodion colofn 7, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[10] Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon / Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
[11] Cofnod y Trafodion colofnau 41 a 96, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[12] Llythyr at y Gweinidog, Atodiad 3
[13] Heb ei gyhoeddi

disgwyl i'r gwariant gros a gaiff ei gyllidebu ar gyfer pob disgybl godi 4.5 y cant arall yn 2009/10 – a'r cyfan tra bo nifer y disgyblion a nifer yr ysgolion yn lleihau.[14]

21. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cydnabu'r Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r senarios ariannu a geir yn adroddiad Bramley ar waith, ond mae'n ymgynghori gydag awdurdodau lleol ar fodelu newidiadau i'r modd y dosberthir y Grant Cynnal Refeniw fel bod hwnnw wedi'i dargedu'n well ac yn fwy seiliedig ar ganlyniadau. Byddai gwneud hyn yn golygu ymgorffori dangosydd tangyflawni yn y fformwla ar gyfer ysgolion uwchradd, drwy frigdorri o'r cyfanswm a defnyddio'r dangosydd newydd ar gyfer y rhan honno a frigdorrwyd. Os bydd hyn yn llwyddiannus, gellid gwneud yr un peth gyda rhannau eraill o fformwla yr Asesiad o Wariant Safonol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach ar y cyd sy'n cynnwys adolygu'r model ar gyfer ysgolion prif ffrwd a datblygu gwell dangosydd o amddifadedd na'r un presennol, sy'n seiliedig ar brydau ysgol am ddim.[15] Dywedodd y Gweinidog y dylid cyflwyno'r newid yn raddol drwy newid y cyllid fformwla, a hynny heb gynyddu'r gyllideb.[16]

22. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dulliau o ariannu ysgolion er mwyn cael gwared ar yr aneglurder, y cymhlethdod a'r gwahaniaethau yn y system bresennol. Y nod yw gwella'r broses o ymateb i'r anghenion presennol ac anghenion y dyfodol, a chanolbwyntio ar y canlyniadau y ceisir eu cyflawni. Rydym hefyd yn argymell y dylid cael system graffu gadarn ar gyfer y dulliau newydd o ddosbarthu cyllid, yn ogystal â chyhoeddi amserlen ar gyfer gweithredu er mwyn gallu monitro'r cynnydd.**

<u>Grantiau addysg</u>

23. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon fod 23 o grantiau uniongyrchol gwahanol ar gael gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag addysg, ac oherwydd hynny, mae'r sefyllfa'n peri dryswch ac yn gymhleth i'w monitro. O ganlyniad, nid yw pob ysgol yn gallu elwa o'r grantiau hyn. Dadleuwyd nad yw grantiau uniongyrchol yn addas ar gyfer gwneud newidiadau mawr i'r cwricwlwm nac ar gyfer darpariaeth tymor hir neu i ymateb i anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae neu lle bydd gofyniad deddfwriaethol neu ofyniad sy'n deillio o archwiliadau yn pennu bod yn rhaid gwneud newidiadau o'r fath. Dadleuodd UCAC a Chymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr[17] y gall y system grantiau bresennol effeithio'n negyddol ar waith prifathrawon gan ei bod yn golygu baich gwaith trymach, yn eu rhwystro rhag canolbwyntio ar fusnes craidd yr ysgol, ac yn golygu bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithiol wrth baratoi, prosesu ac archwilio ceisiadau am grantiau.

24. Er mai grantiau addysg yw'r dull a ffefrir ar gyfer ariannu mentrau newydd neu roi arferion da ar waith, cytunwn nad ydynt yn addas ar gyfer cynnal

[14] Cofnod y Trafodion colofnau 104 a 111, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[15] Cofnod y Trafodion colofn 123, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[16] Cofnod y Trafodion colofn 131, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[17] Cofnod y Trafodion colofn 74, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2

ysgolion o ddydd i ddydd. Felly, roeddem yn falch o glywed y Gweinidog yn dweud ei bod yn edrych ar y broses o symleiddio'r grantiau wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, ac mae'n disgwyl y bydd wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda hynny erbyn gwanwyn 2010.[18]

25. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth gynnar i ni am ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid. Yn ogystal â cheisio gwella pa mor agored yw'r wybodaeth am grantiau addysg a chael gwared ar y fiwrocratiaeth yn y broses o'u gweinyddu, dylai'r Llywodraeth hefyd geisio sicrhau nad yw'r grantiau'n cael eu defnyddio'n amhriodol. Yn lle hynny, dylid cael system fwy cynaliadwy sydd wedi'i thargedu'n well.**

Cyllid awdurdodau lleol

26. Gan fod awdurdodau addysg lleol yn sefydlu eu fformwlâu ariannu eu hunain ar gyfer addysg ac yn cyhoeddi data am eu hysgolion mewn ffyrdd gwahanol, dadleuodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, NASUWT ac UCAC fod hyn yn creu cymhlethdodau wrth geisio deall sut y caiff ysgolion unigol eu hariannu, ac mae'n creu problemau hefyd wrth geisio cymharu ac o ran bod yn agored.

27. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru wella pa mor agored yw'r wybodaeth a gyhoeddir am ariannu ysgolion yng Nghymru, yn ogystal â chysondeb y wybodaeth honno a'r gallu i gymharu. Dylid gwneud hynny yng nghyd-destun yr arian a ddosberthir i awdurdodau lleol a'r arian a ddosberthir i'r ysgolion yn eu tro, a dylid gwella hefyd y gofynion ar gyfer cyhoeddi adroddiadau am wariant ar addysg.**

28. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, roedd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yn cwestiynu a yw awdurdodau lleol yn neilltuo cyfran deg o'r hyn a dderbyniant ar gyfer addysg, ac awgrymwyd bod 14 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gwario llai ar addysg nag y mae eu Hasesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion yn ei ddangos. Yr isaf yw 94.3 y cant o'r ffigur hwn. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr y dylid neilltuo'r arian hwn i gyd, a pheidio â gadael iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau eraill, fel sy'n digwydd mewn nifer o awdurdodau. Roedd NASUWT yn pryderu'n arw bod arian ysgolion yn cael ei ddal yn ôl gan rai awdurdodau addysg lleol.[19]

29. Cyfeiriodd UCAC at y "loteri côd post"[20] lle gall y gwariant ar addysg amrywio yn dibynnu ar ba mor bwysig yw hynny ar yr agenda wleidyddol. Cred rhai prifathrawon fod hyn yn peri anfantais i fathau penodol o ysgolion (ysgolion cynradd bychain ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg canolig eu maint). Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym fod canran y gwariant a ddarperir gan awdurdodau lleol i ysgolion wedi lleihau'n gyson dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, a hynny hyd at 70 y cant mewn rhai ardaloedd.[21]

[18] Cofnod y Trafodion colofnau 105 a 144, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[19] Cofnod y Trafodion colofn 52, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[20] Cofnod y Trafodion colofn 51, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[21] Cofnod y Trafodion colofn 36, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2

30. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau eu bod o blaid democratiaeth leol, ond y dylid neilltuo mwy o'r arian i sicrhau bod hwnnw'n cyrraedd yr ysgolion.[22] Yn wir, roedd undebau'r athrawon i gyd yn cytuno'n gyffredinol y dylid cael rhagor o gysondeb wrth ddosbarthu cyllid ar lefel yr awdurdod lleol, ac roedd rhywfaint o gefnogaeth dros edrych ar y posibilrwydd o bennu isafswm ar gyfer ariannu addysg. Roedd y Gweinidog yn bendant, fodd bynnag, nad targed ariannu mo'r Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion.[23]

31. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau arbedion maint drwy eu polisïau caffael, mynd i'r afael â lleoedd gwag mewn ysgolion, osgoi gwastraffu a gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ad-drefnu ysgolion a chynllunio strategol, a hynny'n gysylltiedig â buddsoddi cyfalaf.[24]

32. Gwerthfawrogwn ei bod yn bwysig bod gan awdurdodau lleol y gallu a'r hyblygrwydd i benderfynu ar sut yr ariennir ysgolion, a hynny er mwyn ymateb i anghenion ac amgylchiadau lleol, ond credwn hefyd fod angen rhagor o gysondeb a'r gallu i gymharu rhwng y gwahanol ddulliau o ariannu yng Nghymru. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o anghenion refeniw ysgolion a fyddai'n sail i gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, a hynny er mwyn pennu isafswm y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol ei wario ar addysg.**

Gwefan ariannu ysgolion

33. Yn ein hadroddiad blaenorol ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru, gwnaethom argymhellion ar gyfer sefydlu gwefan ariannu ysgolion. Yn benodol, dylid hysbysebu'r wefan ymhlith rhieni, athrawon, llywodraethwyr a fforymau ysgolion; dylai'r wefan gynnwys tudalennau am ariannu gyda gwybodaeth am fuddsoddi cyfalaf; a dylai Llywodraeth Cymru geisio ac ymateb i sylwadau gan randdeiliaid am gynnwys y safle, a pha mor gyfoes a defnyddiol yw hwnnw.

34. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywed y Gweinidog ei bod yn hyderus bod y tudalennau gwe ar ariannu ysgolion yn adnodd defnyddiol a hwylus ar gyfer ysgolion, awdurdodau a'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid dyna oedd barn rhai o'r tystion.[25] **Croesawn barodrwydd y Gweinidog i dderbyn sylwadau am wella'r wefan ar ariannu ysgolion,[26] ac argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ganfod barn rhanddeiliaid ac adolygu pa mor hwylus a rhyngweithiol yw'r wefan er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'w diben.**

[22] Cofnod y Trafodion colofn 21, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[23] Cofnod y Trafodion colofn 113, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[24] Cofnod y Trafodion colofn 113, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Atodiad 1; UCAC, Cofnod y Trafodion colofn 88,
9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[26] Cofnod y Trafodion colofnau 103 a 143, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2

Adeiladau ysgolion

35. Roedd cryn bryder fod y stoc adeiladau yng Nghymru yn annigonol a bod diffygion o'r fath yn effeithio'n andwyol ar allu myfyrwyr i ddysgu, yn ogystal â gwastraffu ynni ac arian.[27] Roedd y Gweinidog ei hun yn cydnabod bod gwaith caled i'w wneud er mwyn adnewyddu ac ailadeiladu ystad gyfalaf ysgolion Cymru.[28]

36. Rydym yn cydnabod bod awdurdodau addysg lleol yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud ag adeiladau ysgolion, ond credwn fod angen cymorth arnynt er mwyn bod yn ddarbodus wrth wario ar y gwaith hwn. Roeddem felly'n falch o glywed bod y Gweinidog wedi cymeradwyo 32 o brosiectau awdurdodau lleol yn y rownd gyntaf o geisiadau i'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae ceisiadau'r ail rownd newydd gael eu cyflwyno ar gyfer eleni.[29]

37. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod modd gweld yn glir pa fuddsoddi cyfalaf sy'n cael ei wneud ar ysgolion, ac er mwyn sicrhau bod y cyllid a neilltuwyd yn cael ei ddefnyddio'n llawn ar wariant cyfalaf ar ysgolion.**

Fforymau ysgolion

38. Mae gofyn i'r holl awdurdodau addysg lleol yng Nghymru sefydlu fforwm ysgolion (a elwir hefyd yn fforwm cyllideb ysgolion) er mwyn hwyluso'r broses o gyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion unigol ynghylch materion sy'n ymwneud ag ariannu a chyllidebau.

39. Er bod rhai prifathrawon yn fodlon â'r trefniadau ac yn teimlo bod y fforymau'n gynrychioladol, dywedodd UCAC yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod prifathrawon eraill (yn bennaf o'r sector cynradd ac ysgolion llai) yn llai sicr yn eu cylch. Credai Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr hefyd fod y dulliau o ofalu am y fforymau cyllideb ysgolion yn fylchog, gyda rhai fforymau'n gweithio'n dda ac eraill ddim cystal. Roedd y Gymdeithas am weld cynrychiolaeth gryfach ar y fforymau ysgolion gan undebau'r athrawon a'r prifathrawon, a dylai hynny fod yn orfodol.

40. Credai NASUWT nad yw'r fforymau ysgolion wedi cyflawni'r nod o ddarparu system gadarn ar gyfer craffu ar gyllidebau addysg lleol. Yn hytrach, yng ngolwg yr Undeb, mae'r fforymau wedi datblygu'n siopau siarad sy'n cael eu rheoli gan leiafrif bychan o brifathrawon a swyddogion personél yr awdurdod lleol. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wrthym nad oedd modd i'r fforymau ysgolion ofyn y cwestiynau iawn na sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau lleol.[30]

---

[27] Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon / Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, UCAC a NASUWT
[28] Cofnod y Trafodion colofn 137, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[29] Cofnod y Trafodion colofnau 107-108, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[30] Cofnod y Trafodion colofn 35, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2

41. Yn 2008, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg o ba mor effeithiol yw fforymau ysgolion. Dadleuodd rhai o undebau'r athrawon y dylid mabwysiadu holl argymhellion yr adolygiad hwnnw.[31] Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr adolygiad wedi bod yn bwysig er mwyn gwella pa mor agored yw'r system a galluogi cyfathrebu a dealltwriaeth o faterion ariannol wrth benderfynu ar gyllidebau ysgolion. Dywedodd y Gweinidog hefyd y bydd yn cyhoeddi arferion da ar gyfer fforymau cyllideb ysgolion cyn diwedd y flwyddyn.[32] **Argymhellwn y dylai arferion da Llywodraeth Cymru ar gyfer fforymau ysgolion gynnwys canllawiau clir ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau disgwyliedig, a dylid seilio'r arferion hynny ar argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg er mwyn sicrhau'r canlyniadau ariannu gorau i ysgolion.**

Materion sy'n deillio o fentrau newydd

42. Bydd y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19 yn effeithio'n sylweddol ar y modd y caiff addysg ei ariannu mewn ysgolion, colegau a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith, yn ogystal ag ar sut y mae'r sefydliadau hynny'n cydweithio wrth ddefnyddio adnoddau. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y cyllid ychwanegol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu'r math o addysg y cynlluniwyd ar ei gyfer.[33]

43. Yn adroddiad y Pwyllgor yng Nghyfnod 1, roedd y Pwyllgor ar y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn pryderu y byddai'r ddwy system ariannu wahanol ar gyfer addysg cyn-16 ac addysg ôl-16 yn amharu ar gynllunio ar y cyd ac ar ddarparu addysg fel rhan o'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19. Roedd UCAC hefyd yn rhannu'r farn hon. Roedd y Pwyllgor yn pryderu hefyd bod y systemau ariannu presennol yn dueddol o hyrwyddo cystadleuaeth rhwng sefydliadau yn hytrach nag annog y dull cydweithredol sy'n angenrheidiol o dan y Mesur newydd a'r Agenda Gweddnewid.

44. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau wrthym bod y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 wedi bod yn llwyddiant (dywedodd UCAC hynny hefyd)[34] ond fod llawer o waith o hyd i'w wneud er mwyn sicrhau bod y llwybrau cynnydd 14-19 wedi'u hariannu'n llawn, ac mae'r Undeb yn pryderu am yr effaith ar gyfnodau allweddol 3 a 4.[35] **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso effaith y ddau fodel gwahanol o ariannu addysg cyn-16 ac ôl-16 ar gydweithredu wrth ddarparu addysg 14-19.**

45. Dywedodd UCAC hefyd ei bod yn pryderu ynghylch gwneud newidiadau sylfaenol i'r cwricwlwm ar sail y galw am gyrsiau "newydd" ymhlith dysgwyr (yn hytrach na chyrsiau mwy traddodiadol fel cerddoriaeth neu

---

[31] www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090331schoolforumsexecutivesummaryen.pdf
[32] Cofnod y Trafodion colofnau 106 a 141, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[33] Cofnod y Trafodion colofn 111, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[34] Cofnod y Trafodion colofn 60, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2
[35] Cofnod y Trafodion colofnau 15 i 16, 9 Gorffennaf, Atodiad 2

ddrama), sydd wedyn yn cael eu tynnu'n ôl wrthi i'r cyllid ddod i ben. Mae hynny'n risg i gysondeb a pharhad yn y cwricwlwm ac yn arbenigedd y staff.

46. Yn ei hadroddiad ar ariannu ysgolion, awgrymodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon y gellid edrych eto ar y penderfyniad i ariannu'r Cyfnod Sylfaen drwy grantiau. Efallai y byddai wedi bod yn well pe bai'r fenter wedi cael ei hariannu drwy addasu'r Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer addysgu cyn oed cynradd ac addysgu cynradd, a hynny er mwyn ymateb i'r costau ychwanegol y gallai ysgolion eu hwynebu wrth ariannu'r Cyfnod Sylfaen. Dadleuodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon hefyd y byddai hyn wedi lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â dyrannu Grantiau'r Cyfnod Sylfaen.

47. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'n ofalus y cynnydd a'r broses o roi Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar waith, gan gynnwys ariannu'r cwricwla lleol a'r nifer o ddisgyblion sydd wedi'u rhwystro rhag dilyn y cwrs o'u dewis o ganlyniad i "wariant anghymesur".**[36]

48. Mae'r agenda gweddnewid ar gyfer addysg ôl-16 a'r modelau cydweithredol amrywiol a ddarperir drwy'r agenda honno yn fater o bwys eithriadol, a bydd y Pwyllgor yn edrych ar hynny'n fanylach yn ddiweddarach yn 2009.

Casgliadau

49. Mae tystiolaeth undebau'r athrawon i'r ymchwiliad byr hwn yn awgrymu bod pobl yn credu bod bwlch ariannu yn bodoli mewn addysg yng Nghymru, yn enwedig o gymharu â Lloegr. Cytunwn â'r Gweinidog[37] fod y "niwl ariannu" wedi dechrau clirio. Serch hynny, ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law ar gyfer yr ymchwiliad hwn, credwn fod angen mwy o eglurder, tryloywder ac atebolrwydd yn y system ariannu ysgolion o hyd, a hynny o ran sut y caiff arian ei ddosbarthu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, ac o ran sut y bydd yr awdurdodau yn eu tro'n dosbarthu'r arian i ysgolion unigol.

50. Credwn mai diben ariannu ysgolion yw cyflawni rhywbeth – sef canlyniadau cadarnhaol i ysgolion a disgyblion fel ei gilydd. Ar sail ein gwaith craffu ni, rydym wedi casglu bod angen newid diwylliant drwy'r holl system ariannu ysgolion, er mwyn seilio honno ar gyflawniad addysgol yn hytrach na'r model presennol lle canolbwyntir ar gostau hanesyddol sy'n arwain at yr un hen ganlyniadau.

51. Rydym yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o sicrhau y bydd 95 y cant o bobl ifanc yn barod am gyflogaeth gyda sgiliau da neu am addysg uwch erbyn 2015[38]. Serch hynny, **argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i wneud cynnydd wrth ddatblygu perthynas gynaliadwy a**

[36] O dan y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 9(2)(e) mae gan bobl ifanc 14-19 oed hawl gyfreithiol i astudio unrhyw gwrs o'u dewis, er y gall penaethiaid colegau wrthod hynny ar nifer o seiliau, gan gynnwys gwariant anghymesur

[37] Cofnod y Trafodion colofn 103, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2

[38] Cofnod y Trafodion colofn 151, 9 Gorffennaf 2009, Atodiad 2

symbiotig rhwng amcanion polisi addysg a'r system ariannu ysgolion sy'n cyflawni'r amcanion hynny.

Atodiad 1

Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (Saesneg yn unig)
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135400&ds=7/2009

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135960&ds=7/2009

NASUWT Cymru – papurau ac atodiadau (Saesneg yn unig)
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135513&ds=7/2009

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135535&ds=7/2009

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135775&ds=7/2009

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135537&ds=7/2009

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135538&ds=7/2009

Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon / Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (Saesneg yn unig)
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135390&ds=7/2009

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon – papurau ac atodiad (Saesneg yn unig)
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135495&ds=7/2009

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=135768&ds=7/2009

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=136234&ds=7/2009

Atodiad 2

Trawsgrifiad 9 Gorffennaf
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=137493&ds=7/2009

Atodiad 3

Neath Port Talbot Schools Forum

Neath Port Talbot County Borough Council

Neath Port Talbot County Borough Council

Chair: Mr R. Hilton
Llangatwg Comprehensive School
Main Road
Llanilltud
Neath
SA10 8NR
01639 634700

Vice Chair: Mr W Griffiths
Rhos Y Fro Primary School
Rhos Penlan
Pontardawe
Swansea
SA8 4HB
01792 862200

Secretary: Miss J. Clarke
Parent & Pupil Support Unit
Neath Port Talbot CBC
Civic Centre
Port Talbot
SA13 1PJ
01639 763680

10th November 2008

Mrs J Hutt
Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Mrs Hutt

Schools' Forum – Neath Port Talbot County Borough Council

Once again I have been asked to write to you on behalf of the Neath Port Talbot Schools' Forum to express our dismay at the provisional budget settlement proposed for Local Government in 2009-10.

For yet another year Local Government is to receive an uplift substantially below the current rate of inflation and for yet another year this will inevitably lead to a reduction in the resources available within schools. As Forum members we see this on a daily basis.

In a year when the WAG is to receive an additional 4.8% from Westminster, Local Authorities will receive an average increase of only 2.9%. This is significantly below expectations at a time when inflation is approaching 5%. Neath Port Talbot, one of Wales' economically and socially deprived areas, will receive just 2.2% - even less when new spending requirements are taken into account. Following several years of 'efficiency savings' it is hard to see how this further cut in real funding can lead to any other outcome than a diminished service for our children.

Why are schools accorded such a low priority by the WAG ? Rhetoric suggests that we are aiming for a first class educational system to prepare our young people for the Wales of the future. Reality suggests that we are starving our schools of the vital staff and resources they need to be successful.

Since the last academic year there are now forty six less teachers working in Neath Port Talbot as a result of the 2008-9 settlement. A similar reduction seems inevitable again this year unless something is done.

Currently pupil performance in Wales is lagging behind that of England. The disappointing PISA results places the achievements of Welsh fifteen year olds alongside countries such as Azerbaijan and Croatia [Professor D Reynolds]. In these circumstances the WAG should appreciate that the real need within schools at the present moment is an increase to our base funding to provide adequate teachers, resources and classrooms.

/...

10th November 2008

Mrs J Hutt

Specific grants for specific purposes have increased and are, of course, helpful – even if they are inefficient and costly to administer. However, they do not compensate for the insufficient level of basic funding that will prevent us from delivering our core purpose.

The Schools' Forum in Neath Port Talbot would, therefore, respectfully ask that proper account is taken of these views and that the WAG consider again the implications of this draft budget for schools in Wales.

Yours sincerely

R Skilton
Chair – Schools' Forum

Atodlen A
Argymhellion: Y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion, Adroddiad ar Drefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru, Mehefin 2006

1. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymchwilio i'r rheswm am y gwahaniaethau o ran lefelau ariannu rhwng y cyfnodau allweddol, ac yn enwedig rhwng disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, ac y dylai gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.
2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn ar unwaith ar adolygiad o'r pwyslais a roddir ar ffactorau megis cludiant, teneurwydd y boblogaeth ac amddifadedd wrth ddyrannu adnoddau addysg o fewn y setliad llywodraeth leol, er mwyn sicrhau bod pwysoliadau yn seiliedig ar angen gwrthrychol.
3. Mae'r Pwyllgor yn llwyr gefnogi argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru4 i Lywodraeth y Cynulliad y dylid cynnal adolygiad i weld ai'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yw'r dangosydd gorau o amddifadedd ac mae'n argymell y dylid cychwyn arno cyn gynted ag sy'n bosibl.
4. Er mwyn sicrhau mwy o dryloywder a gwella'r gwaith o graffu ar y gyllideb, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud trefniadau i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar y gyllideb ar gyfer cyllid llywodraeth leol fel rhan o'r weithdrefn o bennu'r gyllideb bob blwyddyn.
5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gychwyn ar unwaith ar adolygiad o'r fformiwla dosbarthu cyllid llywodraeth leol fel bod yr elfen addysg yn seiliedig ar y costau cyfredol a chostau darparu gwasanaethau addysg yn y dyfodol yn hytrach nag ar gostau hanesyddol.
6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ymchwil manwl i effaith amrywiadau mewn ariannu ar gyrhaeddiad disgyblion ar ôl cymryd i ystyriaeth newidion eraill megis amddifadedd a theneurwydd y boblogaeth.
7. Rydym yn argymell, yn unol ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru, y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i bob awdurdod lleol anfon crynodeb blynyddol o'r gyllideb i ysgolion yn eu hardal, yn dangos y ffactorau sydd wedi arwain at newidiadau yng nghyllidebau ysgolion.
8. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod y crynodeb blynyddol o'r gyllideb yn gyson ar draws holl ffiniau llywodraeth leol a bod llwybrau archwilio clir a chyson yn cael eu sefydlu a'u monitro.

9. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi un gyfres glir o ganllawiau i awdurdodau ynghylch paratoi datganiadau cyllideb Adran 52 er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau yn gyson.

10. Rydym yn argymell, wrth adolygu ffurflen gyfrifo'r cyfrif refeniw ("RA"), y dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau ei bod yn dod yn haws cymharu ar draws yr holl awdurdodau gyfran yr arian addysg sy'n cael ei gwario'n uniongyrchol ar addysg a'r gyfran sy'n cael ei gwario ar wasanaethau canolog a gweinyddu.

11. Pa bynnag newidiadau eraill a wneir, rydym yn argymell y dylai'r Llywodraeth weithio'n agos gyda llywodraeth leol i wella dealltwriaeth ysgolion o'r broses ariannu a'r ffrydiau ariannu.

12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn peri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau roi blaenoriaeth yn eu fformiwlâu dosbarthu i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r ysgolion mwyaf difreintiedig yn eu hardaloedd, a dangos hyn yn eu cyllidebau ysgolion arfaethedig a gyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad.

13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi cymariaethau ystyrlon, wedi'u dadgyfuno cyhyd ag y bo'n bosib, o wariant addysg yng Nghymru, yng nghenhedloedd a rhanbarthau eraill y DU ac mewn gwledydd eraill, ac y dylai weithio gyda rhannau eraill o'r Llywodraeth i sicrhau bod mwy o fanylion ar gael.

14. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi gwybod i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am unrhyw arian canlyniadol o dan fformiwla Barnett a dderbynnir gan Lywodraeth y Cynulliad ym maes addysg, a hynny pan dderbynnir yr arian canlyniadol.

15. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad bennu a chyhoeddi gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol ar gyfer staffio ysgolion, adeiladau a chyfarpar ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i feincnodi ac fel sail i wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol ar ariannu ysgolion. Dylai Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y camau a gymerwyd i bennu gofynion ariannu cyffredin safonol ar gyfer ysgolion.

16. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau adrodd yn flynyddol ar unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian y mae'n ei ddyrannu i ysgolion a'r gofynion ariannu sylfaenol cyffredin a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

17. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol hynny sy'n ariannu

ysgolion islaw'r gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol i sicrhau eu bod yn gwario at y lefel hon o fewn amserlen y cytunir arni. Dylid defnyddio Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion Addysg fel dangosydd targed hyd nes bod gofynion ariannu sylfaenol cyffredin safonol wedi'u pennu.

18. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y camau a gymerwyd gan yr awdurdodau lleol i fodloni'r gofynion ariannu cyffredin safonol ar gyfer ysgolion neu'r targedau sy'n seiliedig ar yr Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion Addysg yn y cyfamser.

19. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad osgoi cyflwyno gweithredoedd polisi anghynaliadwy trwy raglenni grantiau penodol tymor byr ac y dylai geisio darparu arian tymor hirach (yn unol â'r cynigion ar gyfer cyllidebau tair blynedd) i alluogi gwell cynllunio ariannol gan ysgolion.

20. Dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau nad yw buddion cynlluniau grant a ffrydiau arian newydd yn cael eu peryglu gan ddulliau bidio biwrocrataidd a beichus.

21. I helpu ysgolion i gynllunio, rydym yn argymell, pan fo cynlluniau grant newydd yn cael eu cyflwyno, fod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi adroddiad ar gynaliadwyedd y cynllun a strategaeth ymadael ar gyfer y cynllun, a hynny fel rhan o'r canllawiau i awdurdodau ar barhad cynlluniau.

22. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried newid y canllawiau ar fformiwlâu ariannu awdurdodau addysg lleol i sicrhau gwell cysondeb trwy Gymru ac i leihau effaith newidiadau ariannol o flwyddyn i flwyddyn sy'n deillio o amrywiadau yn niferoedd y disgyblion. 23. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn arfarnu swyddogaeth a chyfrifoldebau'r fforymau cyllideb ysgolion gyda'r nod o wella'r cyfathrebu rhwng awdurdodau ac ysgolion.

23. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn arfarnu swyddogaeth a chyfrifoldebau'r fforymau cyllideb ysgolion gyda'r nod o wella'r cyfathrebu rhwng awdurdodau ac ysgolion.

24. Rydym yn argymell y dylid cyflwyno cyllidebau tair blynedd ar gyfer ysgolion fel mater o flaenoriaeth.

25. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad beri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu hymlyniad wrth yr amserlen ar gyfer gosod cyllideb ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno'n flynyddol i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau.

26. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol bod arian a ddyrennir i awdurdodau at ddibenion cyfalaf yn cael ei ddefnyddio'n llwyr fel gwariant cyfalaf ym maes addysg ac y dylai ystyried darparu adnoddau ychwanegol os yw'n dal i ymrwymo i'w nod o wneud pob ysgol yn addas i'w phwrpas erbyn 2010.

27. Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ddilyn y cynnydd i ymateb i'n hargymhellion, yn y lle cyntaf, o fewn 6 mis i ymateb cychwynnol y Llywodraeth.

Atodlen B
Argymhellion: Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, Trefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru, Mai 2008

1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, o ystyried tystiolaeth Swyddfa Archwilio Cymru, yn ystyried newid y canllawiau a/neu'r rheoliadau mewn perthynas ag adran 52 ffurflenni cyfrifon refeniw.
2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod rhieni; athrawon llywodraethwyr a fforymau ysgolion etc. yn cael gwybod am y tudalennau ariannu ysgolion ar y wefan.
3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y tudalennau ar y wefan sy'n ymwneud ag ariannu ysgolion yn cynnwys adran ar gyfer arian cyfalaf sy'n rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill am gynlluniau cenedlaethol ac yn cynnwys lincs at wybodaeth am benderfyniadau lleol.
4. Mae'r yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn am sylwadau gan yr holl randdeiliaid am y tudalennau ariannu ysgolion ar y wefan o ran eu cynnwys, pa mor gyfredol a defnyddiol ydynt, a'i bod yn gweithredu ar sail y sylwadau hynny.
5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Gweinidog i gyflwyno'i chynigion gerbron y Pwyllgor (pan fydd hynny'n briodol) yng nghyswllt casgliadau adroddiad Bramley.
6. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu rôl bwrsariaid a swyddogion cyllid ac ystyried cynhyrchu canllawiau ar arfer gorau i'w rhannu i'r holl randdeiliaid.
7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod cynlluniau rheoli asedau addysg yn cael eu hystyried fel rhan o gynlluniau rheoli asedau ehangach yr awdurdodau.
8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal arolwg o bob ysgol i weld beth yw cyflwr presennol toiledau disgyblion; ac yn cyhoeddi adroddiad am eu cyflwr.
9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, ar ôl cwblhau'r arolwg a chyhoeddi adroddiad ar gyflwr toiledau ysgolion, yn cydweithio ag awdurdodau lleol i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i'w gwella ar fyrder.
10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn sicrhau bod holl gynlluniau rheoli asedau awdurdodau'n cael eu cyhoeddi a'u monitro a'u bod ar gael i bawb eu gweld.